# Canllawiau Gwneud Cais

## RHOI TYSTIOLAETH YN ERBYN MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL YN ADRAN GWYBODAETH ATEGOL Y FFURFLEN GAIS

Adran "***Gwybodaeth Ategol***" y ffurflen gais yw rhan bwysicaf eich cais. Dylech dalu sylw arbennig i'r adran hon, gan mai dyma le cawn wybod pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd. Bydd eich cais yn cael ei asesu drwy gymharu'r hyn rydych wedi ei ysgrifennu a'r meini prawf hanfodol a nodir yn y fanyleb person.

Wrth nodi anghenion swydd, rydym yn defnyddio meini prawf hanfodol/dymunol y fanyleb person. Rhaid i chi gyfeirio at bob un o'r meini prawf a'r galluoedd a nodir yn y fanyleb person ac ymdrin â phob un yn ei dro. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn rhoi strwythur rhesymegol i'ch gwybodaeth ategol ac yn eich galluogi i roi tystiolaeth o'r ymddygiad, y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau sydd gennych ymhob maes drwy roi enghreifftiau ymarferol. Rhowch unrhyw dystiolaeth hefyd o'r gofynion dymunol sydd wedi eu nodi yn y fanyleb person. Bydd cwblhau'r adran '**Gwybodaeth Ategol**' fel hyn yn rhoi'r cyfle gorau i chi gael eich rhoi ar y rhestr fer.

Peidiwch â rhoi cyfres o ddatganiadau heb dystiolaeth. Er enghraifft:

*"Mae gennyf wybodaeth am y prosesau a ddefnyddir yn y rôl" neu "Rwyf yn gyfathrebwr effeithiol"*

Ni fydd datganiadau moel fel hyn yn rhoi tystiolaeth i'r panel sy'n creu'r rhestr fer o'r hyn rydych wedi ei wneud.

Wrth roi tystiolaeth, **disgrifiwch**

- yr hyn a wnaethoch,
- sut y gwnaethoch e,
- pam y gwnaethoch e a
- yr effaith a gafodd,

Bydd hyn yn dangos eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen a'ch bod yn gallu ei wneud. Wrth roi tystiolaeth, meddyliwch am enghraifft lle rydych wedi arddangos y maen prawf hanfodol a defnyddiwch fodel "STAR" fel tystiolaeth fel a ganlyn:

**"S" – Sefyllfa**

**"T" – Tasg**

**"A" – Amdani**

**"R" – Rhoi ar Waith**

Rhowch dystiolaeth o unrhyw gymwysterau proffesiynol/masnachol a/neu aelodaeth o gyrff proffesiynol/masnachol gofynnol (os yn berthnasol) yn adrannau 'Addysg a Hyfforddiant' a/neu 'Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol' y ffurflen gais.

**Ni ddylai'r adran gwybodaeth ategol gynnwys eich CV na gwybodaeth bersonol fel enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost ac ati.**